AMGUEDDFA CYMRU

# Stori Weledol

## Taith i Sain Ffagan



# Stori Weledol


**Canllaw Gweledol yw hwn ar gyfer grwpiau addysg sydd am ymweld.**

**Mae'n llawn gwybodaeth ddefnyddiol i bawb, gan gynnwys pobl ag anghenion arbennig.**






# Symbolau a ddefnyddir yn y canllaw hwn



Dyma'r symbol sy'n dangos lle llawn arogl cryf



Dyma'r symbol sy'n dangos lle swnllyd.



Dyma'r symbol sy'n dangos fod y golau'n newid.



Dyma'r symbol sy'n dangos ble allwch chi gyffwrdd pethau.

# Os ydych chi'n cyrraedd mewn bws

Mae lle parcio bysiau yng nghefn y prif faes parcio, ar y dde.

Dilynwch y pafin ar ochr dde'r maes parcio bysiau i gyrraedd y Brif Fynedfa.






# Cyrraedd yr Amgueddfa

**Dyma flaen yr Amgueddfa.**

**Mae llwybr caled yn arwain at y Brif Fynedfa.**



# Dyma Brif Fynedfa'r Amgueddfa

Mae'r drysau'n wydr ac yn agor yn awtomatig wrth i chi gerdded atyn nhw.

Mae Atriwm yr Amgueddfa yn ofod mawr agored, gyda llawr llwyd, sgleiniog a waliau gwyn.

Mae Derbynfa yng nghanol yr Atriwm, lle bydd staff yn eich croesawu chi.



# Pwy fyddwch chi'n eu cyfarfod?

Bydd Staff yr Amgueddfa yn eich croesawu chi wrth y Dderbynfa.

Mae rhai staff yn gwisgo dillad gyda logo'r Amgueddfa.

Maen nhw yno i'ch helpu chi i fwynhau, ac ateb cwestiynau.

Mae sgriniau teledu wrth y Dderbynfa gyda gwybodaeth am y digwyddiadau ar y diwrnod, neu adeiladau sydd ar gau.






# Pwy fyddwch chi'n eu cyfarfod?

Os ydych chi wedi archebu sesiwn, efallai bydd rhai o'r staff mewn gwisg hanesyddol.

Efallai y byddan nhw'n gwisgo gwisg Geltaidd ac yn cario offer ffug.

Maen nhw'n gyfeillgar, ac yn barod i'ch helpu chi i ddysgu sut oedd pobl yn byw yn y gorffennol.



# Cyrraedd Canolfan Ddysgu Weston


Dringwch y grisiau ar ochr dde'r Atriwm.

Bydd staff yr adran addysg wrth dderbynfa'r Ganolfan Ddysgu i'ch cofrestru chi, dangos yr ystafell fwyta, ac ateb unrhyw gwestiynau arall.

Mae lifft i'r Ganolfan Ddysgu a'r Orielau hefyd. Pwyswch Lefel 2.






# Map o Sain Ffagan

Mae map ar gael i prynnu o'r Brif Dderbynfa, neu i'w lawrlwytho fan hyn.

Mae mapiau mawr ar draws y safle, gydag arwyddion yn pwyntio at wahanol adeiladau ac orielau.



# Yr Adeiladau Hanesyddol

Mae rhai o'r adeiladau yn dywyll iawn.

Efallai bydd tân wedi ei gynnau, a'r ystafell yn llawn arogl mwg.

Mae rhaffau a rhwystrau mewn rhai adeiladau, yn dangos ble allwch chi ddim mynd.

Mae toeon a drysau isel yn llawer o'r adeiladau.




# Cyrraedd yr Adeiladau Hanesyddol

Mae dros 40 o adeiladau wedi eu hailgodi yn Sain Ffagan. Gwelwch y map ar dudalen 7.

Ewch i'n gwefan i weld rhagor o ffotograffau a gwybodaeth am yr adeiladau cyn ymweld: *embed link*

Cliciwch ar y lluniau i weld y llwybr.






# Anifeiliad

Gallwch chi fynd i fferm Llwyn yr Eos yn Sain Ffagan.

Gall y fferm fod yn swnllyd ac yn brysur. Yn enwedig yn ystod tymor wyna ym mis Mawrth/Ebrill.

Efallai byddwch chi'n gweld a chlywed y ffermwyr yn defnyddio tractorau, offer a pheiriannau.

Mae llawer o anifeiliaid gwahanol ar y fferm – defaid, moch, hwyaid a gwyddau.






# Cyrraedd Oriel Cymru...

Dringwch y grisiau ar ochr dde'r Atriwm, yna'r grisiau gyferbyn â'r Ganolfan Ddysgu a throi i'r dde.

Mae coridor hir gyda llawer o wydr.

Bydd mynedfa'r Oriel ar y chwith. Mae lifft i Oriel Cymru... hefyd. Pwyswch Lefel 3.






# Oriel Cymru...

Pan fydd llawer o bobl yn yr Oriel, gall hi fod yn swnllyd, gyda llawer o eco.

Mae llawer o oleuadau yn yr Oriel, sy'n adlewyrchu ar y casys gwydr.



# Cyrraedd Oriel Byw a Bod

Mae Oriel Byw a Bod ar yr un lefel ag Oriel Cymru… .

Wrth adael Oriel Cymru… bydd mynedfa Oriel Byw a Bod ar y chwith.

Mae mynediad i gadair olwyn.



# Oriel Byw a Bod

Mae digonedd o weithgareddau ymarferol i ymwelwyr yn yr Oriel. Mae gwisg ffansi, gemau a theganau i chwarae gyda nhw.

Mae piano i ymwelwyr ei chwarae.



# Cyrraedd Oriel Gweithdy

Gadewch fynedfa gefn y Prif Adeilad a dilyn y llwybr i lawr i'r chwith.

Dilynwch y llwybr i'r chwith heibio yr ardal chwarae.

Dilynwch yr arwyddion du a gwyrdd.

Mae'r llwybr yn addas i gadair olwyn. Edrychwch ar y map.





# Cyrraedd Oriel Gweithdy

Mae pont o drawstiau pren wrth brif fynedfa adeilad Gweithdy.

Mae'r llwybr yn addas i gadair olwyn. Edrychwch ar y map.



# Oriel Gweithdy

Mae llawer o wrthrychau i'w darganfod a'u cyffwrdd yn yr Oriel.

Gallai hyn fod yn dipyn i'w brosesu i rai pobl. Mae canolbwyntio ar un casyn ar y tro yn help.

Mae sŵn pobl yn gweithio gydag offer yn cael ei chwarae ar lŵp yn yr Oriel.



# Toiledau

Mae toiledau arbenig i ddisgyblion wrth Ganolfan Ddysgu Weston.

Mae nhw ar y dde, cyn i chi gyrraedd derbynfa'r Ganolfan Ddysgu. Mae cawod yn y toiled anabl.

Mae drysau'r toiledau, a'r sychwyr dwylo yn swnllyd.

Mae mwy o doiledau ar y llawr gwaelod yn y Prif Adeilad, wrth y Caffi.



# Toiled Lleoedd Newid

Mae toiled Lleoedd Newid ar y llawr gwaelod yn y Prif Adeilad wrth y Caffi.

Yn y toiled Lleoedd Newid mae cawod, sinc sy'n codi a gostwng, gwely a hoist.

Gofynnwch am allwedd Radar wrth y Dderbynfa yn y Brif Fynedfa.

Mae toiled Lleoedd Newid a thoiled anabl yn adeilad Gweithdy.

Mae bloc toiledau gyda thoiled anabl wrth yr adeilad Prefab. Dilynwch y map i gyrraedd y toiledau.



# Siop

Mae Siop yn y Prif Adeilad lle gallwch chi brynu anrhegion.

Mae Siop Gwalia, Popdy a Siop Losin hefyd.



# Ardaloedd Tawel

Mae tir y Castell fel arfer yn dawelach na gweddill yr Amgueddfa, ac yn llawn bywyd gwyllt a blodau.

Gallwch chi ddilyn taith gerdded ofalgar drwy dir y Castell hefyd.

Y Map



# Yr ystafell ginio

Stiwdio 3 yw ystafell ginio am grwpiau addysg. Mae'r gofod hwn yn cael ei rannu gyda grwpiau eraill.

Mae Stiwdio 3 yn ystafell fawr gyda drysau gwydr a llawer o fyrddau a chadeiriau.

Mae dau fwrdd sy'n codi a gostwng ar gyfer defnyddwyr cadeiriau olwyn.

Mae sinciau, tap dŵr yfed, a loceri i chi gadw eich bwyd.

Cysylltwch â Thîm Gweinyddol yr Adran Addysg i ddysgu mwy am y lleoliad a thrafod eich anghenion: Addysg.sainffagan@amgueddfacymru.ac.uk



# Archebu

## Rhowch wybod i ni wrth archebu beth yw anghenion eich grŵp.

Oes angen i ni:

- Addasu cynnwys neu fformat sesiwn, e.e. cyflymder, iaith, cynnwys, gweithgareddau, gwisgoedd, pethau i'w hosgoi / annog.
- Creu amserlen fwy hyblyg.
- Trefnu gofod ar wahân dros ginio.
- Gostwng goleuadau a sain os yw hynny'n bosib.



# Gweithdai

Efallai byddwch chi mewn gweithdy wedi'i hwyluso gan aelod staff mewn gwisg hanesyddol.

Efallai bydd cyfle i chi wisgo gwisg Fictoraidd, dal offer a chwarae rôl.

Mae disgyblion fel arfer yn mwynhau'r elfen hon, ond rhowch wybod os fyddai addasiadau yn helpu.

Rydyn ni'n cynnig gwahanol weithdai drwy'r flwyddyn, ac mae amserlen ar ein gwefan.





# Ymweliadau Rhithiol

Gallwch chi drefnu taith rithwir cyn ymweld â'r Amgueddfa.

Ymunwch ag Amgueddfa Cymru ar-lein gyda'ch dosbarth am weithdy rhyngweithiol byw am ddim.

Mae'r gweithdai wedi'u cynllunio ar gyfer disgyblion 7-11 oed, ac yn cyffwrdd ag elfennau Y Celfyddydau, Celfyddydau Mynegiannol, a Iechyd a Lles y Cwricwlwm.

